



CANLLAW LEFEL A



DEWIS GWYCH,
ADDYSGU GWYCH,
DYFODOL GWYCH



CROESO I COLEG GWENT

Un o'r colegau sy'n perfformio orau yng Nghymru*



**Gyda chyfradd basio
gyffredinol o 99.9%**

rydych yn gwybod y
gallwch ddisgwyl addysgu
o'r radd flaenaf, cefnogaeth
arderchog a phrofiad
dysgu anhygoel.



Mae ein cyfraddau pasio
Lefel A yn gyson uwch na
chyfartaleddau Cymru a
chenedlaethol.

100%

Cyfradd pasio mewn 30 o
bynciau Safon Uwch.

Gallwch astudio Lefelau A ym;

- ✓ Mharth Dysgu Blaenau Gwent
- ✓ Pharth Dysgu Torfaen
- ✓ Campws Crosskeys



Gallwn eich helpu i
ddewis y cyfuniad
cywir o bynciau ar
gyfer eich gyrfa
ddewisol. **Bydd
angen i chi ddewis o
leiaf 3 neu 4 pwnc.**



**Bydd eich dyhead delfrydol, eich angerdd a'ch sgiliau yn pennu pa lwybr
sy'n iawn i chi. Dechreuwch ar eich stori lwyddiant gyda ni heddiw!**

*Adroddiad Canlyniad Dysgwyr Llywodraeth Cymru, Yr Adran Addysg a Sgiliau 2018/2019

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar www.coleggwent.ac.uk



CYNNWYS

- 4** Eich cefnogi chi – yn y dosbarth a thu allan i'r dosbarth
- 6** Ym mha gampws alla' i astudio Lefelau A?
- 8** Dewis y cyfuniad cywir o bynciau Lefel A
- 10** Sut i wneud cais



EICH CEFNOGI CHI

YN Y DOSBARTH A THU ALLAN I'R DOSBARTH

Os ydych yn
bryderus am ddod
i'r coleg, peidiwch
â phoeni, ry'n ni
yma i helpu!

Mae myfyrwyr Coleg Gwent yn derbyn lefel ragorol o gefnogaeth, i roi'r cyfle gorau i chi i lwyddo.

- ✓ Tiwtor personol - sydd wedi ymrwmo i helpu chi gydag unrhyw bryderon allai fod gennych, a rhoi cymorth ac arweiniad
- ✓ Cyngor gyrfaol a chymorth gydag UCAS a cheisiadau am swyddi
- ✓ Cyfle i ddysgu a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol yn Gymraeg neu'n ddwyieithog
- ✓ Mynediad i'n gwasanaeth cwnsela a chaplaniaeth gyfrinachol

Rhwydwaith Seren

Rydym am sicrhau bod ein holl ddysgwyr yn cyflawni eu potensial. Mae Rhwydwaith Seren yn rhoi sylfaen ardderchog i fyfyrwyr sydd wedi ennill A*s mewn TGAU i wneud cais i brifysgolion grŵp Russell cystadleuol a dethol. Mae'r gweithgareddau a ddarperir yn magu hyder a gwydnwch - gan roi i fyfyrwyr y rhinweddau y mae prifysgolion Grŵp Russell yn eu gwerthfawrogi ac yn chwilio amdanynt yn eu ymgeiswyr.

Diogelwch a lles

Rydym yn blaenoriaethu diogelwch a lles myfyrwyr. Mae pob aelod staff yn ymgymryd â hyfforddiant diogelu, ac mae ein rhwydwaith cymorth helaeth yn sicrhau bod dysgwyr yn ddiogel a'u bod yn medru gwneud defnydd o wasanaethau cymorth. Am wybodaeth bellach, ewch i:

www.coleggwent.ac.uk/cy/support/all-learners/health-wellbeing

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar www.coleggwent.ac.uk





Trafnidiaeth

Rydym yn sicrhau bod cyrraedd ein campysau mor hawdd â phosibl, ac yn gweithio'n agos gyda darparwyr trafndiaeth gyhoeddus i gynnig prisiau teithio rhatach i fyfyrwyr a sicrhau bod amserlenni'n cael eu cynllunio'n rhesymegol, er mwyn manteisio i'r eithaf ar amser pob dysgwr. Am wybodaeth bellach, ewch i:

www.coleggwent.ac.uk/cy/our-college/travel

Rhaglen Camu Ymlaen Prifysgol Caerdydd

Mae'r rhaglen academiaidd ddwy flynedd hon yn cynnig y cyfle gwych i brofi bywyd prifysgol drwy ddosbarthiadau meist'r academiaidd, gan gwmpasu meysydd pwnc fel iechyd a lles, y dyniaethau a mathemateg a gwyddoniaeth.

Rhaglen Ysgolheigion Clwb Brilliant



Gweithio gydag ymchwilydd PHD i brofi dysgu ar ffurf prifysgol. Gallwn eich helpu i ddatblygu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r hyder i sicrhau lleoedd mewn prifysgolion mawreddog.



Nes i wirioneddol fwynhau astudio ar gyfer fy Lefelau A. Roedd y mwynhad yn deillio o'r amgylchedd yr oeddwn i'n astudio ynddo. Roedd fy nhiwtoriaid yn garedig iawn ac yn hynod gefnogol. Roeddent yn annog cyfranogiad ac ymgysylltiad mewn gwersi sydd yn hanfodol o ran cymell myfyrwyr, gwella eu gwbyodaeth ac felly, llwyddiant mewn arholiadau. Yn dilyn fy amser ym Mharth Dysgu Blaenau Gwent, rwyf wedi symud ymlaen at ddechrau hyfforddi fel Cyfrifydd Siartredig (ACA) ICAEW gyda chwmni cyfrifeg yng Nghasnewydd.

Myles Davies

Myfyrwr Lefel A, BGLZ



YM MHA GAMPWS ALLA' I ASTUDIO LEFELAU A?

Rydym yn cynnig ystod eang o bynciau lefel A ar gampws Crosskeys, Parth Dysgu Blaenau Gwent a'n Parth Dysgu Torfaen newydd, fel bod modd i chi ddewis y pynciau cywir ar gyfer yr yrfa yr hoffech ei dilyn.

Byddwch hefyd yn cael help gyda'ch cais UCAS a chyngor ar ysgrifennu eich datganiad personol, i sicrhau bod gennych y cyfle gorau i gael eich derbyn i'ch prifysgol o ddewis.

Gyda 32 o bynciau Lefel A ar gael, byddwn yn bendant yn cynnig y cyfuniad gorau i'ch helpu i wneud yn dda.

**Cewch
fwynhau bywyd
cymdeithasol
gwyh a
chyfleusterau o'r
radd flaenaf**



Yn 16 oed, nid oeddwn yn siŵr beth roeddwn am ei astudio o ran addysg uwch, ond roeddwn o'r farn y byddai lefelau A yn rhoi sylfaen dda i mi. Dewisais astudio mathemateg, bioleg, cemeg a ffiseg, gan y byddai'r pynciau hyn yn rhoi'r cymwysterau oedd eu hangen i mi ar gyfer y rhan fwyaf o raddau, felly doedd dim yn fy ngorfodi i fynd ar drywydd penodol. Roedd lefelau A yn wych i mi oherwydd cefais gyfle i barhau â'r holl bynciau yr oeddwn wedi'u mwynhau yn yr ysgol, ond yn llawer mwy manwl, wnaeth ehangu fy nealltwriaeth a chynnig llawer o gyfleoedd dysgu i mi. Mae'r holl athrawon yng ngholeg Crosskeys yn wych, a gwnaethant fy amser yn y coleg yn bleserus iawn.

Dylan Bevan

Myfyriwr Lefel A,
Campws Crosskeys

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar www.coleggwent.ac.uk



Peidiwch ag anghofio, bydd angen i chi ddewis o leiaf 3 neu 4 pwnc Safon Uwch.

	Hyd	BG	C	T
Celf a Dylunio	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Bioleg	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Astudiaethau Busnes	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Cemeg	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Cyfrifiadureg	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Troseddeg	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Drama ac Astudiaethau'r Theatr	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Economeg	2 Flynedd		✓	✓
Iaith a Llenyddiaeth Saesneg	2 Flynedd	✓	✓	✓
Llenyddiaeth Saesneg	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Astudiaethau Ffilm	1/2 Flynedd		✓	
Ffrangeg	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Mathemateg Bellach	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Daearyddiaeth	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Y Llywodraeth a Gwleidyddiaeth	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Dylunio Graffeg	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	1/2 Flynedd	✓		
Hanes	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
TGCh	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Y Gyfraith	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Mathemateg	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Mathemateg Bur	1/2 Flynedd		✓	
Astudiaethau'r Cyfryngau	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Cerddoriaeth	2 Flynedd	✓	✓	✓
Ffotograffiaeth	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Addysg Gorrfforol	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Ffiseg	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Seicoleg	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Addysg Grefyddol	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Cymdeithaseg	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Sbaeneg	1/2 Flynedd	✓	✓	✓
Cymraeg	1/2 Flynedd	✓	✓	✓

Canllaw i symbolau'r campws:

BG - Parth Dysgu Blaenau Gwent / C - Campws Crosskeys /
/ T - Parth Dysgu Torfaen

DEWIS Y CYFUNIAD CYWIR O BYNCIAU LEFEL A

Nod Llwybrau Lefel A yw eich symud chi gam yn nes at eich dyheadau yn y dyfodol.

Yn Coleg Gwent, rydym yn cynnig rhaglenni astudio unigryw sy'n canolbwyntio'n llwyr ar roi'r sgiliau, y profiadau a'r cymwysterau diweddaraf i chi i'ch galluogi i fynd ar ôl gyrfa neu radd yn y Brifysgol sydd o ddiddordeb i chi.

Ddim yn siŵr i ba gyfeiriad i fynd?

Gall Coleg Gwent eich helpu chi i benderfynu a'ch paratoi ar gyfer llwyddiant. Rydym wedi grwpio ein pynciau Lefel A i lwybrau gyrfaoedd, sy'n cynnwys pynciau ategol i'ch helpu chi i ddewis y cyrsiau gorau ar gyfer eich gyrfa ddefnyddiol. Bydd angen i chi astudio 3 neu 4 Lefel A dros gyfnod o ddwy flynedd. Bydd hyn yn cynnig dilyniant i chi i gymwysterau lefel gradd addysg uwch, a gallwn helpu i ddewis y cyfuniad gorau o bynciau.

Maes Pwnc	Opsiynau Lefel A	Llwybr Gyrfa
Busnes	<ul style="list-style-type: none">✓ Astudiaethau Busnes✓ Economeg✓ Mathemateg✓ Y Gyfraith✓ Y Cyfryngau	<ul style="list-style-type: none">✓ Marchnata✓ AD✓ Cyfrifeg✓ Arbenigwr Digidol✓ Ymgynghorydd Busnes
Celfyddydau Creadigol	<ul style="list-style-type: none">✓ Astudiaethau'r Cyfryngau✓ Celf a Dylunio✓ Cerddoriaeth✓ Ffotograffiaeth	<ul style="list-style-type: none">✓ Dylunydd Setiau✓ Cerddor✓ Dylunydd Ffasiwn✓ Ffotograffydd✓ Marchnata✓ Animeiddiwr

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar www.coleggwent.ac.uk



Maes Pwnc	Opsiynau Lefel A	Llwybr Gyrfa
Dylunio a'r Cyfryngau	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Astudiaethau'r Cyfryngau ✓ TGCh ✓ Mathemateg ✓ Ffiseg ✓ Ffotograffiaeth 	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Dylunydd Gwefannau ✓ Newyddiadurwr ✓ Pensaer ✓ Dylunydd Gemau ✓ Golygydd Ffilmiau
Saesneg ac Ysgrifennu	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Iaith Saesneg ✓ Llenyddiaeth Saesneg ✓ Astudiaethau'r Cyfryngau ✓ Hanes ✓ Cymraeg 	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Ysgrifennwr Copi ✓ Rheolwr CC ✓ Athro ✓ Gohebydd ✓ Golygydd ✓ Awdur
Yr Amgylchedd, Daearyddiaeth a Gwyddorau'r Ddaear	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Daearyddiaeth ✓ Mathemateg ✓ Saesneg ✓ Cyfrifiadureg 	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Biolegydd Morol ✓ Cefnforwr ✓ Fylcanolegydd ✓ Cynllunydd Trefol/Tref
Y Dyniaethau	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Hanes ✓ Astudiaethau Crefyddol ✓ Y Llywodraeth a Gwleidyddiaeth 	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Gwasanaeth Sifil ✓ Athro ✓ Heddwlas ✓ Gwasanaeth Tân ✓ Cyfreithiwr
Y Gyfraith	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Y Gyfraith ✓ Llenyddiaeth Saesneg ✓ Seicoleg ✓ Hanes 	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Cyfreithiwr ✓ Paragyfreithiwr ✓ Swyddog Prawf ✓ Gweithiwr Ieuencid
Mathemateg, Ffiseg a Chyfrifiadureg	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Mathemateg ✓ Ffiseg ✓ Chyfrifiadureg 	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Bancwr ✓ Cyfrifydd ✓ Ffisegwr ✓ Peiriannydd Mecanyddol ✓ Gwyddonydd Data
Meddygol	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Bioleg ✓ Cemeg ✓ Ffiseg ✓ Mathemateg 	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Meddyg ✓ Deintydd ✓ Nyrs ✓ Radiograffydd ✓ Swŵolegydd ✓ Fferylllydd
Gwyddorau Cymdeithasol	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Cymdeithaseg ✓ Seicoleg ✓ Y Gyfraith ✓ Bioleg ✓ Hanes 	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Gweithiwr Cymdeithasol ✓ Therapydd Llafaredd ✓ Athro ✓ Therapydd Galwedigaethol

SUT I WNEUD CAIS

1

DEWIS CWRS

Bydd angen i chi ddewis o leiaf 3 neu 4 pwnc Safon Uwch.

Pan fyddwch yn dewis eich pynciau Safon Uwch, mae'n bwysig eich bod yn dewis y pynciau cywir ar gyfer yr yrfa rydych eisiau ei dilyn.

Os nad ydych yn gwybod pa gwrs sy'n addas i chi, rydym yn cynnal digwyddiadau agored gydol y flwyddyn. Gallwch alw heibio hyd yn oed os ydych wedi gwneud cais.



2

GWNEUD CAIS AR-LEIN

I wneud cais ar-lein, ewch i WWW.COLEGGWENT.AC.UK/CY



3

MYND I'CH CYFWELIAD,
WYNEB YN WYNEB NEU
O BELL



4

MYNYCHU
YMRESTRU/
ANWYTHO



5

DECHRAU YN
Y COLEG!



Ymgeisiwch ar-lein nawr ar www.coleggwent.ac.uk



Ar gyfer ymholiadau cyffredinol,
cyngor neu arweiniad cysylltwch
â Recriwtio Myfyrwyr

Ffôn:

01495 333777



Ar gyfer ymholiadau am
geisiadau, cysylltwch â
Derbyniadau

Ffôn:

01495 333777



Ar gyfer cyngor a gwybodaeth
am gyllid ariannol a chymorth,
cysylltwch â Cyllid Myfyrwyr
Cymru

Ffôn:

0300 200 4050



helo@coleggwent.ac.uk

01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

NODIADAU:

